GWOBRAU LANTRA CYMRU AWARDS

2025

# Ffurflen enwebu unigolyn

**Mae'r diwydiannau tir ac amgylcheddol yn eithriadol o bwysig i Gymru am ystod eang o resymau: bwyd a diod o ansawdd uchel; cynnal a gwella ein hadnoddau naturiol; pren; iechyd a lles anifeiliaid; ansawdd bywyd; gweithgareddau hamdden a lles.**

**Cynhelir Gwobrau Lantra Cymru gyda phartneriaid yn y diwydiant i gydnabod llwyddiannau unigolion, myfyrwyr, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn y meysydd hyn. Maen nhw hefyd yn codi proffil cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth, gan dynnu sylw at fanteision gweithlu medrus sydd wedi'i hyfforddi'n dda i gyflogwyr. Rydym ni'n ddiolchgar i'n prif noddwyr Cyswllt Ffermio am eu cefnogaeth barhaus i'r Gwobrau.**

Os hoffech gynnig rhywun ar gyfer ein gwobrau, darllenwch y canllawiau canlynol, llenwch y ffurflen a'i dychwelyd atom ni erbyn **Dydd Gwener 17 Hydref 2025.**

## Sut i enwebu

Rydym ni'n croesawu enwebiadau gan gy ogwyr, darparwyr hyfforddiant, ysgolion, colegau neu brifysgolion cyn belled â'u bod ar gyfer rhywun sydd naill ai'n gweithio, yn byw neu'n astudio yng Nghymru.

Mae panel annibynnol o gyflogwyr a chynrychiolwyr y diwydiant yn beirniadu'r holl geisiadau, cyn gwahodd yr enwebeion sydd ar y rhestr fer i gael eu cyfweld dros Microsoft Teams/yn ddigidol ar y 27 a 28 Hydref 2025.

Cyhoeddir yr enillwyr a'r rhai nesaf atynt mewn seremoni wobrwyo unigryw a chinio gala yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar Ddydd Iau 15 Ionawr 2026.

## Yr hyn mae'r beirniaid annibynnol yn chwilio amdano

Er mwyn gwella eich siawns o lwyddo yn ein gwobrau, atebwch yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon yn ofalus, gan ddefnyddio enghreifftiau lle bo hynny'n bosibl. Mae'r beirniaid yn edrych yn ofalus ar y geirda gan eich enwebydd a byddant eisiau gweld tystiolaeth bod gennych: angerdd dros ddysgu ac am eich swydd; dealltwriaeth o'ch diwydiant; y potensial i rannu eich brwdfrydedd ag eraill a'r cymhelliant i barhau i ddysgu drwy gydol eich gyrfa. Efallai eich bod hefyd wedi profi manteision dysgu yn y gwaith.

Os cewch eich gwahodd i gael cyfweliad, yna bydd y beirniaid eisiau siarad am rai o'ch atebion ysgrifenedig yn fanylach.

LANTRA

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

GWOBRAU LANTRA CYMRU AWARDS

# Categorïau sydd ar gael ar gyfer enwebiadau

## 1 Gwobr Dysgwyr Coleg y Flwyddyn – 20 mlwydd oed ac o dan

**Ar agor i fyfyrwyr ac ymgeiswyr 20 oed neu iau ar 1 Ionawr 2025, sy'n datblygu gyrfa o fewn y diwydiannau amgylcheddol a diwydiannau'r tir ac sydd wedi dangos ymrwymiad i addysg a hyfforddiant galwedigaethol ers gadael yr ysgol. Gallai ymgeiswyr fod yn** fyfyrwyr **llawn- amser neu ran-amser yn y coleg, yn brentisiaid, gwirfoddolwyr neu'n gyflogedig.**

Beirniedir gan: Panel Gwobrau Lantra Cymru

## 2 Gwobr Dysgwyr Coleg y Flwyddyn – 21 a hŷn

**Ar agor i fyfyrwyr a dysgwyr 21 oed a throsodd ar 1 Ionawr 2025, sydd wedi rhagori mewn hyfforddiant a datblygiad ac o ganlyniad wedi bod o fudd i'r busnes y maen nhw'n gweithio ynddo, y diwydiant maen nhw'n ei gynrychioli, neu wedi lansio menter lwyddiannus eu hunain. Gallai ymgeiswyr fod yn fyfyrwyr llawn-amser neu ran-amser yn y coleg, yn brentisiaid, gwirfoddolwyr, cyflogedig, hunangyflogedig neu'n berchnogion busnes.**

Beirniedir gan: Panel Gwobrau Lantra Cymru

## 3 Gwobr Arloeswr Ffermio Cyswllt Ffermio

**Ar agor i holl gleientiaid Dysgu Gydol Oes Cyswllt Ffermio sydd wedi dilyn hyfforddiant drwy Raglen Cyswllt Ffermio ers mis Ionawr 2017.**

Beirniedir gan: Panel Gwobrau Lantra Cymru

## 4 Gwobr Garddwriaeth Cyswllt Ffermio

**Gwobr yn cydnabod busnesau garddwriaeth yng Nghymru am gyfraniad rhagorol I Ddatblygiad Proffesiynol parhaus trwy hyfforddiant a chefnogaeth garddwriaethol Cyswllt Ffermio Lantra**

Beirniedir gan: Panel Gwobrau Lantra Cymru

## 5 Gwobr Arloeswr Ffermio Cyswllt Ffermio

**Gwobr i ddathlu unigolyn sydd wedi arddangos arloesedd a hyblygrwydd o fewn system ffermio gynaliadwy trwy ymgysylltu â chefnogaeth Cyswllt Ffermio. Bydd y beirniaid yn canolbwyntio ar y modd yr aeth ymgeiswyr ati i weithredu, cofnodi a delio ag arferion da rheoli tir cynaliadwy a newid hinsawdd ar eu daliad.**

Beirniedir gan: Panel Gwobrau Lantra Cymru

## 6 Gwobr Coedwigaeth a Phrosesu Pren

**Gwobr newydd ar gyfer 2025, sy'n cydnabod unigolion sydd wedi rhagori mewn hyfforddiant a datblygu ac felly wedi sicrhau elw i'r busnes maen nhw'n gweithio ynddo a'r diwydiant maen nhw'n ei gynrychioli.**

Beirniedir gan: Panel Gwobrau Lantra Cymru

## 7 Gwobr Cyfraniad Oes - Lantra

**Gwobr i gydnabod cyfraniad parhaus eithriadol a sylweddol i'r sector Tir neu Fwyd-Amaeth yng Nghymru.**

Beirniedir gan: Panel Gwobrau Lantra Cymru

# Sut i wneud cais

Llenwch y ffurflen ganlynol ar gyfer pob person sy'n cael ei enwebu.

Gallwch enwebu cynifer o bobl ag y dymunwch, ond defnyddiwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob person.

E-bostiwch ffurflenni wedi'u llenwi i **wales@lantra.co.uk** neu eu hanfon drwy'r post i Lantra Cymru, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys LD2 3WY erbyn **dydd Gwener 17 Hydref 2025.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch **wales@lantra.co.uk** neu ffoniwch **01982 552646**.

# Manylion yr enwebai

| | |
|---|---|
| **Enw'r person sy'n cael ei enwebu** | |
| Oedran | |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Rhif ffôn | |
| Rhif ffôn symudol | |
| Cyfeiriad ebost | |

# Categori a enwebir amdano

☐ Gwobr Dysgwyr Coleg y Flwyddyn – 20 mlwydd oed ac o dan

☐ Gwobr Dysgwyr Coleg y Flwyddyn – 21 a hŷn

☐ Gwobr Arloeswr Ffermio Cyswllt Ffermio

☐ Gwobr Garddwriaeth Cyswllt Ffermio

☐ Gwobr Arloeswr Ffermio Cyswllt Ffermio

☐ Gwobr Coedwigaeth a Phrosesu Pren

☐ Gwobr Cyfraniad Oes- Lantra

Os yw'r enwebai yn fyfyriwr presennol neu'n gyn-fyfyriwr, rhestrwch y cwrs mae'n ei astudio neu'r cwrs a gwblhaodd yn ddiweddar.

# Geirda gan yr enwebydd

Mewn dim mwy na 150 gair, dywedwch wrthym am lwyddiannau'r enwebai, rhowch enghreifftiau o'i waith/gwaith ac egluro pam ei fod/bod yn haeddu gwobr. Tynnwch sylw at unrhyw heriau neu anawsterau y bu'n rhaid iddo/iddi eu goresgyn er mwyn cyflawni ei nodau.

# Manylion yr enwebydd

| | |
|---|---|
| **Enw** | |
| Busnes/Coleg<br>darparwr hyfforddiant preifat | |
| Cyfeiriad a chod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| Rhif ffôn symudol | |
| E-bost | |

# Gwybodaeth gan y person sy'n cael ei enwebu

Mae'r cwestiynau canlynol yn ffurfio sail y wybodaeth sy'n cael ei rhoi i'r panel beirniadu . Rhowch gymaint o fanylion yn yr atebion â phosibl, os gwelwch yn dda.

| | |
|---|---|
| Pa sector ydych chi'n ei gynrychioli fwyaf? | |

## C1 Beth ddenodd chi i'r diwydiant hwn yn y lle cyntaf?

## C2 Disgrifiwch eich swydd, eglurwch eich rôl, eich prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau a'r sgiliau rydych chi'n eu defnyddio.

**C3** **Soniwch am unrhyw heriau rydych chi wedi eu hwynebu yn y diwydiant a sut y gwnaethoch eu goresgyn nhw.**

**C4** **Beth sydd fwyaf boddhaol a gwerthfawr am ddysgu a/neu gweithio yn y diwydiant?**

**C5** **Pwy sydd wedi bod yn ysbrydoliaeth neu’n ddylanwad ar eich addysg a’ch gwaith a pham?**

**C6** **Pa lwybr ydych chi’n rhagweld eich hun yn ei gymryd yn ystod y blynyddoedd nesaf a beth yw eich uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol?**

## C7 Beth yw uchafbwynt neu lwyddiant mwyaf eich gyrfa hyd yma?

## C8 Beth yw eich tri awgrym gorau ar gyfer pobl sydd eisiau dechrau gyrfa yn eich diwydiant?

# Diogelu data

Mae Lantra yn casglu ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â'n polisi preifatrwydd ac yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a chyfreithiau perthnasol. Gallwn gadw a defnyddio'r manylion a'r delweddau rydych chi'n eu darparu gyda'r ffurflen hon i greu cyhoeddusrwydd cadarnhaol ar gyfer ein gwobrau ar-lein ac mewn cyfryngau print am hyd at ddwy flynedd. Os na fyddwch yn cael eich dewis ar gyfer rownd derfynol ein gwobrau, byddwn yn dileu'r data rydych wedi ei anfon atom ni. Bydd eich cais yn cael ei basio ymlaen at dîm o feirniaid annibynnol ac ni chaiff ei rannu ag unrhyw un arall.

☐ Ticiwch y bocs a llenwch yr adran ganlynol i ddangos eich bod yn cytuno, os gwelwch yn dda

| | |
|---|---|
| **Enw (printiwch, os gwelwch yn dda)** | |
| Llofnod (rhiant neu warcheidwad os ydych chi o dan 16) | |
| Dyddiad | |

LANTRA
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
FARMING connect
cyswllt FFERMIO